

CFfG/2020/ 3ydd Cyfarfod

Y COMISIWN FFINIAU I GYMRU

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 16:30 ddydd Mawrth 1 Rhagfyr 2020 trwy gyfrwng Microsoft Teams.

Yn bresennol:

Mrs Ustus Jefford	Dirprwy Gadeirydd
Aaron Sollis	Asesydd (Arolwg Ordnans)
Mr Huw Vaughan Thomas Mr Sam Hartley	Comisiynydd Comisiynydd
Mrs Shereen Williams Mr Tom Jenkins Miss Hannah Toor	Ysgrifennydd y Comisiwn Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn

Amser Dechrau: 16:30

Amser Gorffen: 18:10

1. CYFLWYNIAD, SYLWADAU AGORIADOL A DATGAN BUDDIANNAU

- 1.1. Agorwyd y cyfarfod gan y Dirprwy Gadeirydd.
- 1.2. Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

- 2.1. Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Neil Park, Asesydd (y Swyddfa Ystadegau Gwladol).

3. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

- 3.1. **Cytunodd** y Comisiwn ar gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ddydd Mawrth 15 Medi 2020, yn amodol ar fân newidiadau.

4. MATERION YN CODI

- 4.1. Rhoddodd yr Ysgrifennydd ddiweddariadau ar faterion yn codi o gyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 15 Medi 2020.

Mater 1 – Diweddariad ar Staffio

Mae'r Comisiwn yn bwriadu cael tîm llawn yn ei le erbyn dechrau mis Chwefror 2021. Disgwylir i'r cyfweiliadau ar gyfer y ddwy swydd Cymorth Tîm (graddfa AO) gael eu cynnal ym mis Ionawr 2021 a byddant yn dechrau ym mis Chwefror 2021. Gwnaed y recriwtio yn allanol a chafwyd ymateb da. Mae'r cyn Ddirprwy Brif Weithredwr wedi llwyddo i sicrhau dyrchafiad a bydd yn gadael y Comisiwn.

Mater 2 – Defnyddio Fideogynadledda ar gyfer Gwrandawiadau Cyhoeddus

Nododd y Comisiwn y cyngor a roddwyd gan Swyddfa'r Cabinet mewn perthynas â'r gwrandawiadau cyhoeddus ar-lein, a bydd CFfG yn parhau i weithio â'r Comisiwn Ffiniau i Loegr (BCE) i nodi opsiynau ar gyfer gwrandawiadau hybrid. Rhaid i unrhyw faterion yn ymwneud â hygyrchedd gael eu cynnwys yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Rhaid darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer y Gwrandawiadau Cyhoeddus a bydd angen ystyried hyn yn ystod y broses gynllunio er mwyn sicrhau ei fod yn gydnaws ag unrhyw blatfform a ddefnyddir. Gallai'r Comisiwn ddilyn y trefniadau presennol a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru. Mae Microsoft Teams hefyd yn archwilio darpariaeth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i'w gynnwys yn ap Teams.

Cytunwyd y bydd yr Ysgrifennydd yn archwilio'r costau a'r opsiwn i ddarparu Iaith Arwyddion Prydain ar gyfer y Gwrandawiadau Cyhoeddus.

Cytunwyd y bydd yr Ysgrifennydd yn ystyried sefydlu cytundeb â Chynghorwyr Cyfreithiol Swyddfa'r Cabinet, yn debyg i'r trefniadau a oedd gan BCE ar gyfer Arolwg 2018.

Mater 3 – Cyhoeddi Adroddiad Blynyddol CFfG

Yn dilyn cyngor gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, mae Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg bellach wedi'i gyhoeddi ar wefan CFfG.

Mater 4 – Rhannu Data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol

Ar hyn o bryd, mae'r Comisiwn yn aros am ymateb i'r llythyr ar y cyd a anfonwyd gan y pedwar Comisiwn at y Swyddfa Ystadegau Gwladol ynghylch rhannu data.

Mater 5 – Dadansoddiad o Wariant ar Gysylltiadau Cyhoeddus a Chyfathrebu yn ystod Arolwg 2018

Ni chynhaliodd y Comisiwn ddadansoddiad o wariant ar Gysylltiadau Cyhoeddus a Chyfathrebu yn ystod Arolwg 2018. Gan y bydd Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu newydd yn dechrau, **cytunwyd** mai un o'i dasgau allweddol fydd cynnal adolygiad rheolaidd o effaith y contract cysylltiadau cyhoeddus a/neu wariant.

5. COFRESTR RISG

- 5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 11 Tachwedd 2020 gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni, a **nodwyd** ei gynnwys.
- 5.2. **Cytunwyd** ar gymeradwyo'r gofrestr risg yn amodol ar y newidiadau canlynol:
- 5.3. CFfG 2 i newid yr effaith risg gynhenid o 5 i 3.
- 5.4. CFfG 4 i gynnwys, o fewn y camau lliniaru, y bydd CFfG yn ehangu hysbysebu'n allanol er mwyn cael cronfa ehangach o dalent o ran profiad a sgiliau.
- 5.5. CFfG 5 i newid y tebygolrwydd risg gynhenid o 2 i 3 hyd nes y ceir rhagor o wybodaeth.
- 5.6. Dileu risg CFfG 6 a gosod risgiau Covid-19 mewn is-adran risg ar wahân.
- 5.7. Gwall teipio yn CFfG 11, dylid newid y risg gynhenid i 5, 2 a 10.
- 5.8. Gwall teipio yn CFfG 12, dylid newid y risg gynhenid i 3, 3, 6 a dylai'r risg weddilliol fod yn 2, 2, 6.
- 5.9. Gwall teipio yn CFfG 13, dylid newid y risg gynhenid i 5, 2, 10.
- 5.10. **Cytunwyd** y bydd y Pennaeth Polisi a Rhaglenni yn cynnwys risg ychwanegol yn ymwneud â'r posibilrwydd o adolygiad barnwrol a'r camau lliniaru priodol.
- 5.11. **Cytunwyd** y dylid cynnwys is-adran risg COVID-19.

6. PECYN GWYBODAETH AROLWG 2023

- 6.1. Nodwyd bod y pecyn gwybodaeth wedi'i anfon at yr aelodau.
- 6.2. **Gweithredu:** Yr aelodau i hysbysu'r Ysgrifennydd os oes angen gwybodaeth ychwanegol arnynt erbyn 15 Rhagfyr 2020

7. UNRHYW FUSNES ARALL

- 7.1. Nodwyd bod y ddogfen 'Canllaw i'r Arolwg' wedi'u seilio ar y Canllaw i Arolwg 2018. **Cytunwyd** y dylid addasu'r iaith a ddefnyddir yn y ddogfen i'w gwneud yn fwy hygyrch, a bydd y dasg hon yn cael ei rhoi i'r Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu.
- 7.2. **Cytunwyd** y dylid datblygu siart lif fel rhan o wneud y Canllaw yn fwy hygyrch.

- 7.3. **Nodwyd** nad oedd y Comisiwn yn ymgynghori ar y Canllaw ac y dylid dileu cyfeiriadau o'r fath.
- 7.4. **Gweithredu:** Y comisiynwyr i gyflwyno sylwadau ar y canllaw drwy e-bost i'r Ysgrifennydd erbyn 15 Rhagfyr 2020.

8. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

- 8.1. Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Mawrth 26 Ionawr 2021.